

Lesley Griffiths AC  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Hannah Blythyn AC  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

9 Ebrill 2020

Annwyl Lesley a Hannah,

### **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**

Hoffwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn gobeithio'ch bod chi'ch dwy'n iach.

Diolch am dderbyn ein gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Ebrill 2020 a fydd yn craffu ar **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**.

Yn ystod yr amgylchiadau anodd rydym yn parhau i'w hwynebu oherwydd pandemig Coronafeirws Covid-19, ac oherwydd bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno'n ffurfiol ar doriad rhwng 9 Ebrill a 21 Ebrill 2020, ni fydd yn bosibl yn awr inni gynnal y sesiwn dystiolaeth a drefnwyd.

Ar hyn o bryd, y dyddiad cau y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i bennu ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn yw 1 Mai 2020. Rwy'n sylweddoli y bydd angen i'r Pwyllgor Busnes adolygu'r dyddiad hwn ymhen amser, o bosibl, oherwydd yr oedi yn hynt y Bil yn Senedd y DU, a gallu Llywodraeth Cymru i ymateb i'r datblygiadau'n gysylltiedig â'r Bil. Rwyf hefyd yn ymwybodol nad yw pwyllgorau'r Cynulliad yn cyfarfod fel arfer ar hyn o bryd, ac y bydd angen inni felly ystyried sut y gallwn baratoi adroddiad ar y Memorandwm i'r Cynulliad ei drafod. Fodd bynnag, yn y cyfamser, **byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod, a hynny erbyn 28 Ebrill 2020.**

#### Cyffredinol

1. A ydych chi o'r farn bod y Bil, a'r holl ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys ynddo, yn angenrheidiol? Os felly, a allech hefyd egluro pam.
2. A yw'r Bil yn gyfystyr â Fframwaith Deddfwriaethol Cyffredin? Pa ddarpariaethau sydd eu hangen i roi'r Fframwaith Deddfwriaethol Cyffredin ar waith?



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ SeneddDCC@cynulliad.cymru

☎ 0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ SeneddLJC@assembly.wales

☎ 0300 200 6565

3. Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil? Pa mor aml y cafodd y trafodaethau hynny eu cynnal a beth oedd y canlyniadau?
4. A wnaethoch chi roi cyfarwyddiadau penodol i Lywodraeth y DU ynghylch pa ddarpariaethau y byddai eu hangen ar Weinidogion Cymru ar gyfer Cymru yn y Bil hwn? A oeddech chi a chwmsler deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r darpariaethau? Os nad oeddech, sut aethoch chi ati i ymdrin â'r mater?
5. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw welliannau eraill y mae Llywodraeth y DU yn eu ceisio i'r Bil? Os felly, a ydych chi wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r gwelliannau hynny, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion Cymru? Os gwneir gwelliannau ychwanegol i'r Bil, sy'n gofyn am gydsyniad y Cynulliad, a fyddwch yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall mewn perthynas â'r Bil?
6. Mae Llywodraeth y DU yn dweud bod naw ymgynghoriad wedi'u cynnal â rhanddeiliaid a bod y rhain wedi dylanwadu ar bolisi yn y Bil. Pa ymgynghoriadau rydych chi wedi'u cynnal i ddylanwadu ar bolisi yn y Bil.
7. Sut y mae'r Bil yn effeithio ar y rhwymedigaethau rhyngwladol presennol?

#### Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad

8. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi nad oes angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau 19 a 43. Ar y llaw arall, yn eich Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydych chi'n nodi bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymal 19 a chymal 43 (i'r graddau y mae'n berthnasol i gymal 19). A allech chi ymhelaethu ar y rhesymu yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch pam rydych chi'n credu bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau hyn? Yn benodol, sut y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron wneud datganiadau penodol yn ystod trafodion Senedd y DU?
9. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 19 a 43? Beth fydd safbwynt Llywodraeth Cymru os na fydd modd cytuno ar y cymalau hyn?
10. Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 24(4)? A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynt y trafodaethau hynny? A fydd Llywodraeth y DU yn ceisio diwygio cymal 24(4) i gryfhau'r dyletswyddau sydd ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i gydweithredu ag unrhyw gorff llywodraethu a sefydlir yng Nghymru yn y dyfodol?
11. Mae Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi nad oes angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau cyffredinol yn Rhan 8 o'r Bil. Ar y llaw arall, yn eich Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydych chi'n nodi y bydd angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau cyffredinol. A allech chi nodi'r darpariaethau cyffredinol hynny rydych chi'n credu y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer? A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU mewn perthynas â hyn, gan nodi a yw Llywodraeth y DU yn cytuno erbyn hyn y bydd angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y cymalau hyn? Beth fydd safbwynt Llywodraeth Cymru os na fydd modd cytuno?



## Pwerau dirprwyedig

12. Mae'r Bil yn rhoi nifer o bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru. A allwch chi amlinellu pam mae angen yr holl bwerau hyn? A ofynnodd Llywodraeth Cymru am y pwerau hyn?
13. A allech chi amlinellu'r polisi y byddwch yn ceisio'i gyflwyno mewn rheoliadau, gan ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil? Pryd rydych yn rhagweld y byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gosod?
14. Pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yw rhai o'r pwerau dirprwyedig. Mae dau o'r pwerau hyn (cymalau 66 a 76) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. A ydych chi'n credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol yn yr achosion hyn? Pam nad ydych chi wedi gofyn i'r rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn ddilyn y weithdrefn gadarnhaol?
15. Mae Cymal 75 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i hepgor rhai gofynion gweithdrefnol yn ymwneud â pharatoi ac adolygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn hytrach, bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i nodi'r gofynion mewn rheoliadau. Pam mae'n briodol symud y gofyniad hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth?
16. Mae cymal 75(3) yn hepgor adrannau 37B a 37C o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. A allwch chi esbonio pam mae'r darpariaethau hyn yn cael eu dileu? A fydd Gweinidogion Cymru yn cynnwys y darpariaethau hyn mewn is-ddeddfwriaeth?
17. Mae cymal 76 yn mewnosod adrannau 94B a 94D yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. O dan ddarpariaethau yn adrannau 94B a 94D, os bydd y Cynulliad yn penderfynu dirymu offeryn sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, "caiff Ei Mawrhydi ddirymu'r offeryn drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor". Pam mae hyn yn wahanol i'r hyn a nodir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 mewn perthynas â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru?
18. Mae Cymal 76 hefyd yn mewnosod adran 94C yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli draenau a charthffosiaeth. Gall y rheoliadau hyn roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau drwy gyfarwyddyd. A ydych chi'n credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 94C?
19. Mewn perthynas â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 81 (Ansawdd dŵr) a allwch chi egluro pam mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn fwy cyfyngedig yn yr Alban nag yng Nghymru? Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn?

## Pwerau cydredol plws

20. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau 'cydredol plws' (gan gynnwys yng nghymalau 47 i 51, 81 ac 125, ac atodlenni 4 i 8) sy'n lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y meysydd perthnasol. A allwch chi esbonio pam rydych chi o'r farn bod pwerau cydredol plws yn briodol? Beth yw'r ymrwymiad Gweinidogol y cyfeirir ato yn eich Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?



21. A fydd Gorchymyn adran 109 yn cael ei gyflwyno i ymdrin â'r datgymhwysio mewn perthynas â pharagraff 11 o Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru? Rydym yn deall bod Gorchymyn adran 109 yn cael ei ddrafftio ac y caiff ei gyflwyno yn y dyfodol agos; a fydd y Gorchymyn adran 109 arfaethedig yn ymdrin â'r anawsterau sy'n codi yn sgil y Bil hwn? Os na fydd, pam hynny, a phryd fydd modd ymdrin â'r anawsterau hyn?
22. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth ar ei rhan mewn unrhyw feysydd penodol? A fydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad yn ffurfiol pan fydd cydsyniad wedi'i roi, yn unol â phroses Rheol Sefydlog 30C?

#### Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Amgylchedd

23. A oes bwriad i'r pwerau yn y Bil fod yn bwerau dros dro (h.y. a fyddant yn cael eu disodli gan bwerau mewn Bil Amgylchedd Cymru yn y dyfodol)? Os nad oes, pam hynny? Os felly, pam nad yw cymal machlud wedi'i gynnwys yn y Bil?
24. Rydych yn dweud mai un o'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Amgylchedd yw oherwydd nad oes amser yn amserlen y Cynulliad ar hyn o bryd i gyflwyno Bil Amgylchedd y gellid ei ddefnyddio i fwrw ymlaen â'r darpariaethau hyn. Mater i Lywodraeth Cymru yn unig yw penderfynu ar ei rhaglen ddeddfwriaethol ei hun. Pam na allai Llywodraeth Cymru gynnwys Bil yr Amgylchedd yn ei rhaglen ddeddfwriaethol?
25. Er yr ymddengys bod y darpariaethau llywodraethu amgylcheddol yn y Bil yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymadawiad y DU â'r UE, nid yw'n ymddangos bod pob darpariaeth yn y Bil yn gysylltiedig â 'Brexit'. Faint o'r darpariaethau eraill yn y Bil y bydd angen iddynt fod ar waith cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu? A oes angen brys i roi rhai darpariaethau penodol yn y Bil ar waith?
26. Sut a phryd fyddwch chi'n asesu pa mor effeithiol yw'r Bil o ran datblygu polisi amgylcheddol yng Nghymru?

#### Hygyrchedd

27. Sut y byddwch chi'n sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil, a'r is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tano, yn hygyrch i randdeiliaid ac i'r cyhoedd cyffredinol?
28. A ydych chi'n poeni y bydd cael y darpariaethau hyn yn neddfwriaeth y DU yn cael effaith negyddol ar hygyrchedd y gyfraith, ar adeg pan mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch?

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**  
Y Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

